OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 No. 111

# Rheoliadau Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Darpariaeth Drosiannol a Darpariaeth Arbed) 2022

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "Deddf 2021" ("*the 2021 Act*") yw Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021;

mae i "disgybl" yr ystyr a roddir i "pupil" yn adran 3 o Ddeddf Addysg 1996(**1**).

mae i "plentyn" yr ystyr a roddir i "child" yn adran 579(1) o Ddeddf 1996.

(2) Mae cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at "yr hen gyfraith" yn gyfeiriadau at y darpariaethau a ddiwygiwyd neu a ddiddymwyd gan Atodlen 2 i Ddeddf 2021 fel yr oeddent yn cael effaith yn union cyn i Atodlen 2 i Ddeddf 2021 ddod i rym.

(3) Mae cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at blentyn neu ddisgybl y darperir addysg iddo "o dan yr hen gwricwlwm" yn gyfeiriadau at y plant hynny a'r disgyblion hynny y mae Rhan 2, 3, neu 5 o Ddeddf 2021 yn gymwys iddynt, ond nad yw'r Rhan berthnasol o'r Ddeddf honno wedi dod i rym eto mewn perthynas â hwy.

(**1**) Diwygiwyd is-adran (1) gan adran 57(1) o Ddeddf Addysg 1997 (p. 44) a pharagraff 9 o Atodlen 7 iddi a diwygiwyd is-adran (1) ac (1A) ymhellach gan adran 215(1) o Ddeddf Addysg 2002 (p. 32) a pharagraff 34 o Atodlen 21 iddi.